**PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 8 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, M. Cowpe, R. Fisher, S. Lloyd-Selby, J.M. Norman, a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr H.C. Hamilton, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A.M. Collins, J. Lynch-Wilson a H.M. Payne.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 8 - Diweddariad ar Wasanaethau Teleofal gan fod sawl aelod o'i theulu'n derbyn cymorth Teleofal ac un aelod o'i theulu'n derbyn pecyn gofal. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad ar faterion Pecynnau Gofal a Teleofal yn unig mewn cyfarfodydd Bro Morgannwg. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod ond ni wnaeth gymryd rhan yn y bleidlais.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDWEITHREDOL MABWYSIADU RHANBARTHOL Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD 2021-22 (CGC) -

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi Adroddiad Blynyddol 2021-22 Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd a'r adroddiad eglurhaol cysylltiedig.

(2) Bod y Pwyllgor Craffu'n parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol yn unol â gofynion y Cytundeb Cyfreithiol sy'n sail i'r Gydweithfa.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad eglurhaol a’r adroddiad blynyddol atodedig i adolygu gwaith y Gydweithfa hyd yn hyn.

(2) Er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n parhau i graffu’n fanwl ar y gwasanaeth rhanbarthol yn rheolaidd.

EITEM AGENDA 5. STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2023/24 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

ARGYMHELLWYD - Nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys cyfeiriad y Cabinet a’r adroddiad ar Raglen Gyfalaf Gychwynnol y Cyngor ar gyfer 2023/24 i 2027/28 a’r Cynigion Cyfalaf.

EITEM AGENDA 6. STRATEGAETH ARIANNOL 2022/23 AC ADNEWYDDU’R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CYF) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig.

(2) Bod sylwadau canlynol y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel y Pwyllgor Craffu arweiniol:

- Mae'r Pwysau Cost a nodir o fewn yr adroddiad, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn gyfreithlon ac wedi’u cymeradwyo'n llawn gan y Pwyllgor.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor dan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddarpariaeth statudol ac felly, ychydig iawn o ddewis sydd gan y Cyngor o ran y gwariant mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn. Felly, mae bodloni anghenion y rheiny mwyaf agored i niwed i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn parhau’n hollbwysig.
- Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau sylweddol a roddir ar y Gwasanaeth Gofal Cartref o ran recriwtio a'r angen i wella cynnig cyflogaeth y Cyngor i weithwyr posib er mwyn gwella recriwtio ac wedi hynny darparu lefel y gofal y mae angen i'r Cyngor ei darparu.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi rhoi sylw i gynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar dybiaethau'r Strategaeth Ariannol a wnaed ar gostau ac arian yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i adnewyddu.

(2) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am sylwadau'r Pwyllgor drwy'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol cyn i'r Cabinet ystyried ymhellach.

EITEM AGENDA 7. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 MEDI 2022 (CGC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad eglurhaol.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod fel y nodir isod.

- Goleuadau Stryd ar hyd Frampton Lane - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £5k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad arian A106.
- Pont Llyfrgell Dinas Powys – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £2k i'w hariannu gan gyfraniad refeniw amgylchedd a thai.
- Ardal Chwarae Cosmeston – Trosglwyddo £13k o gynllun Ardal Chwarae Cosmeston i Gynllun Ardal Chwarae Porthceri.
- Gerddi'r Cnap - prosiect dŵr a bioamrywiaeth – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £6k, i'w hariannu gan gyfraniad arian A106.
- Ysgol Sant Curig - Adnewyddu goleuadau - Dwyn ymlaen £56k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adolygu newidiadau i gynlluniau trwyddedau parcio - Dwyn ymlaen £55k i raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Hamdden Penarth - Ffenestri Gwydr Lefel Uchel - Dwyn ymlaen £1,546k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Partneriaeth Adfywio'r Barri - Dwyn ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Dwyn ymlaen £178k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad i roi gwybod i’r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

EITEM AGENDA 8. DIWEDDARIAD GWASANAETHAU TELEOFAL (CGC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi gwaith hyd yma’r Gwasanaeth Teleofal a’i waith yn y dyfodol.

(2) Bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Teleofal.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar heriau, cyfleoedd a chyfeiriad strategol Gwasanaeth Teleofal Cyngor Bro Morgannwg a’r modelau gwasanaeth a’r datblygiadau parhaus.

(2) Er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am waith y Gwasanaeth Teleofal.